OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1514

# Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 4

## DULL RHEOLI ASIANTAETHAU

**Cofnodion ynglyn â gwasanaethau**

**18.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig gadw'r cofnodion canlynol a'u cadw'n gyfoes, gan ddangos ar gyfer pob person y mae'r asiantaeth yn darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu iddo —

(a) enw llawn;

(b) dyddiad geni;

(c) a yw'r person:

(i) yn blentyn y caniateir ei fabwysiadu, yn rhiant neu'n warcheidwad iddo;

(ii) yn berson sy'n dymuno mabwysiadu plentyn;

(iii) yn berson sydd wedi'i fabwysiadu, ei riant, rhiant naturiol, cyn warcheidwad neu'n berson perthynol;

(ch) disgrifiad o'r gwasanaethau y gofynnwyd amdanynt;

(d) disgrifiad o'r anghenion fel y'u haseswyd gan awdurdod lleol;

(dd) disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd;

(e) a yw'r gwasanaethau yn cael eu darparu ar ran awdurdod lleol o dan reoliadau a wnaed o dan adran 3(4)(b) o Ddeddf 2002.

(2) Rhaid i'r cofnodion a bennir ym mharagraff (1) gael eu cadw am o leiaf bymtheg a thrigain o flynyddoedd o ddyddiad y cofnod diwethaf.